

Yr hyn ddywedoch wrthym.....

Roedd gofalwyr yn teimlo bod y gefnogaeth fyddai'n gwella profiad gofalwr yn cynnwys:

- Cymorth wedi'i Deilwra i Ofalwyr
- Hyfforddiant Sgiliau Digidol
- Gofal Amgen
- Cymorth Ariannol
- Rhaglenni Cymorth Cyflogaeth
- Adnabod a Chydnabod Gofalwyr
- Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar Unigolion
- Gwasanaethau Estynedig y Tu Allan i'r Gwaith
- Dychwelyd i'r Gwaith yn Hyblyg
- Gweithdai yn y Gymuned

Gofynnwyd i ofalwyr beth fyddai'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf i ofalwyr o ran cael eu galluogi a'u cynnwys yn ddigidol, a'r prif sylwadau oedd:

- Cymorth Digidol Cynhwysfawr:
- Hygyrchedd
- Cymorth Ariannol
- Cymorth Technegol
- Gwell Ymwybyddiaeth
- Gofal Seibiant
- Cymorth o Bell
- Mynediad i Ddyfeisiau
- Ymweliadau Cartref

Beth yw eich barn am wasanaethau gofalwyr di-dâl yng Ngorllewin Cymru?


Beth fyddai'n sefyllfa dda i chi erbyn 2030 ar gyfer gwasanaethau gofalwyr di-dâl?

- Dim gwybod pa gymorth sydd ar gael a sut i ddefnyddio'r system
- Archwiliadau MOT yn y gymuned
- Alinio rhwng gwasanaethau
- Cyfeirio, dim ond cystal â'r person sy'n cyfeirio - angen cysondeb
- Help i lenwi ffurflenni
- Seibiant – mynediad ato ac opsiynau i'w wneud gyda'r person rydych chi'n gofalu amdano neu hebdo
- Lle diogel i fynd â'r person rydych chi'n gofalu amdano
- Ddim yn gwybod ble i fynd am help
- Dewis iaith yn bwysig
- Lle ffisegol i fynd i ofyn am gymorth
- Ddim eisiau mynd ar-lein
- Mwy o wasanaethau ar gael
- Adborth y cynllun Buddsoddwyr mewn Gofalwyr
- Digwyddiadau cymunedol
- Mae gofalwyr ifanc angen cymorth, mynediad at gyfleoedd fel eu cyfoedion ac oedolyn dibynadwy drwy gydol eu bywydau fel gofalwr
- Cymorth ariannol
- Cofrestru gofalwyr

Beth arall gellir ei wneud i helpu i adnabod gofalwyr? Dywedodd y gofalwyr:

- Gwybodaeth sy'n weladwy ac yn hygyrch
- Mwy o allgymorth
- Ymgysylltu cymunedol
- Lledaenu gwybodaeth

Blaenoriaethau a nodwyd:



Yn y ddogfen hon, mae'r term Gofalwr yn berthnasol i unrhyw un sy'n gofalu am ffrind, aelod o'r teulu neu gymydog yn rheolaidd ac nad yw'n cael ei dalu am ei gymorth neu ei gefnogaeth

Nid yw'r Strategaeth Gofalwyr yn berthnasol i unigolion sy'n cael eu talu i gynnig cymorth neu ofal fel rhan o'u swydd

Gofalwyr yn WELADWY ac yn teimlo eu bod yn cael eu GWERTHFAWROGI

Beth sydd angen i ni ei wneud

Sut fydd hyn yn cael ei gyflawni

Beth rydym yn disgwyl ei weld

Dathlu a hyrwyddo gwerth gofalwyr

- Cymryd rhan mewn ymgyrchoedd gofalwyr cenedlaethol, rhanbarthol a lleol
- Cymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol lleol
- Hyrwyddo cynlluniau Cerdyn Adnabod Gofalwyr
- Cynyddu ymwybyddiaeth o wefan Cymorth i Ofalwyr Gorllewin Cymru

Cynyddu ymwybyddiaeth sefydliadol

- Cyflwyno cynlluniau fel 'Buddsoddwyr mewn Gofalwyr' i annog cydnabod gofalwyr o bob oedran yn gynnar ac i gynyddu ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael
- Annog cyflogwyr lleol i adnabod a chefnogi staff sydd â chyfrifoldebau gofalu

Darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth gofalwyr

- Rhoi hyfforddiant ymwybyddiaeth gofalwyr ar waith ar gyfer gweithwyr proffesiynol a gwirfoddolwyr, gan ei ddarparu mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys: e-ddysgu, gweminarau a sesiynau wyneb yn wyneb

Mae gofalwyr yn gwybod ble i gael y cymorth a'r wybodaeth sy'n bwysig iddynt

Mae staff a gwirfoddolwyr yn teimlo'n hyderus i gael sgwrs gyda gofalwyr a'u cyfeirio at wybodaeth, cyngor a chymorth sy'n bwysig iddynt

Mae gan sefydliadau statudol bolisiau gofalwyr sy'n cryfhau eu hymrwymiad i helpu gofalwyr sy'n gweithio i gydbwysu gwaith a'u cyfrifoldebau gofalu

Mae gofalwyr yn derbyn gwybodaeth a chyngor sy'n gyson ar draws y rhanbarth

Mwy o ymgysylltu â'r cynllun Buddsoddwyr mewn Gofalwyr

Gofalwyr yn cael eu CEFNOGI

Beth sydd angen i ni ei wneud

Sut fydd hyn yn cael ei gyflawni

Beth rydym yn disgwyl ei weld

Sicrhau bod y wybodaeth gywir ar gael ar yr adeg gywir

- Mae gwybodaeth ar gael mewn amryw fformatau, gan gynnwys gwefan Cymorth Gofalwyr Gorllewin Cymru, taflenni, posterï a chyngor wyneb yn wyneb
- Bydd gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol fel nyrsys, fferyllwyr, meddygon teulu, staff gofal cymdeithasol a'r sector gwirfoddol yn cael cymorth i helpu i gyfeirio at wasanaethau priodol i gefnogi gofalwyr

Gweithredu dull 'Dim Drws Anghywir'

- Bydd awdurdodau lleol, y Bwrdd Iechyd, y sector gwirfoddol a gofalwyr yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu a gwella gwasanaethau i ddiwallu anghenion lleol a rhanbarthol
- Gyda chydysyniad, byddwn yn gwneud rhannu gwybodaeth yn haws rhwng partneriaid a gwasanaethau fel nad oes rhaid i ofalwyr gadw i egluro eu hamgylchiadau gofalu o hyd ac o hyd

Cynnig amrywiaeth o wasanaethau i ymateb i anghenion gofalwyr

- Gofalwyr yn cael cynnig sgwrs 'beth sy'n bwysig i mi' yn eu dewis iaith
- Gall gofalwyr gael gfael ar gymorth i ennill sgiliau, chwilio am waith, neu gadw cyflogaeth sy'n bodoli eisoes
- Bydd ystod amrywiol o gyfleoedd seibiant byr ar gael (yn amodol ar asesiad cymhwysedd a'r cyllid sydd ar gael)
- Bydd gwybodaeth am Eiriolaeth a gwasanaethau cyngor costau byw yn cael ei hyrwyddo
- Bydd grwpiau cymorth gan gyfoedion a rhwydweithiau gofalwyr yn y rhanbarth ar gael i ddarparu cymorth i ofalwyr

Gall gofalwyr gyfathrebu a chael gfael ar wybodaeth mewn fformatau sy'n hygyrch iddynt

Mae gofalwyr yn teimlo'n hyderus ac wedi'u cefnogi wrth ddefnyddio gwahanol systemau cymorth a gwasanaethau

Gall gofalwyr fynegi'r hyn sydd ei angen arnynt i gynnal eu rôl gofalu ac maent yn ymwybodol o sut i ddatblygu cynllun gweithredu brys

Gall gofalwyr gael mynediad at hyfforddiant sy'n cefnogi eu hiechyd a'u llesiant eu hunain

Cynnydd yn nifer y grwpiau cymorth gan gyfoedion a rhwydweithiau gofalwyr sydd ar gael ar draws y rhanbarth

Budd mesuradwy	LLINELL SYLFAEN	Dull mesur a argymhellir
Cynnydd o 5% bob blwyddyn yn nifer yr oedolion sy'n ofalwyr sy'n cael eu cefnogi gan y Gwasanaethau Gwybodaeth i Ofalwyr.		Data gweithgarwch gwasanaeth
Cynnydd o 5% bob blwyddyn yn nifer y gofalwyr ifanc sy'n cael eu cefnogi gan y Gwasanaethau Gwybodaeth i Ofalwyr.		
Cynnydd o 5% bob blwyddyn yn nifer y gofalwyr sy'n oedolion ifanc sy'n cael eu cefnogi gan y Gwasanaethau Gwybodaeth i Ofalwyr.		
Cynnydd o 15% bob blwyddyn yn y lleoliadau ledled Gorllewin Cymru sy'n rhan o'r cynllun Buddsoddwyr mewn Gofalwyr.		Mesur canlyniadau
Canran yr oedolion sy'n ofalwyr bob blwyddyn sy'n dweud bod y cymorth a gawsant wedi hybu llesiant a/neu gyflawni canlyniadau personol.*		Mesur canlyniadau
Canran yr oedolion ifanc sy'n ofalwyr bob blwyddyn sy'n dweud bod y cymorth a gawsant wedi hybu llesiant a/neu gyflawni canlyniadau personol.*		
Canran yr oedolion ifanc bob blwyddyn sy'n dweud bod y cymorth a gawsant wedi hybu llesiant a/neu gyflawni canlyniadau personol.*		
Cynnydd o 15% bob blwyddyn yn nifer y gofalwyr sy'n cael eu cefnogi gan y Gwasanaethau Cymorth Rhyddhau i Ofalwyr.		Mesur canlyniadau
Canran y gofalwyr ifanc a'r oedolion ifanc sy'n ofalwyr sy'n teimlo eu bod yn derbyn cymorth sy'n diwallu eu hanghenion fel gofalwr.*		Arolwg blynyddol o ofalwyr
Cynnydd o 15% bob blwyddyn yn nifer yr ymweliadau â'r wefan gofalwyr rhanbarthol.		Data gweithgaredd gwefan
Cynnydd o 10% yn y Wobr Buddsoddwyr mewn Gofalwyr		Mesur canlyniadau